Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cardiau adnoddau

# Pam mae mawndiroedd yn bwysig?

## Mae mawndiroedd yn ddalfa garbon naturiol.

Mae mawndiroedd yn gallu amsugno a storio llawer iawn o garbon deuocsid. Mae mawndiroedd, sy'n cael eu hadnabod fel 'dalfeydd carbon', yn gorchuddio llai na 3% o arwyneb tir y byd ond credir eu bod yn cynnwys dwywaith cymaint o garbon â choedwigoedd y byd. Mae hyn yn golygu eu bod yn hollbwysig mewn ymdrechion byd-eang i frwydro yn erbyn newid hinsawdd.

## Mae mawndiroedd yn darparu lleoedd i anifeiliaid bori.

Mae pori yn chwarae rhan allweddol wrth gynnal mawndiroedd. Mae'n helpu i reoli'r llystyfiant ymledol sy'n llethu ardaloedd lle mae angen y mwsoglau hanfodol sy'n helpu i ffurfio'r mawn hollbwysig. Os caiff mawndir ei reoli'n ofalus, gellir pori gwartheg, defaid a cheffylau arno.

## Mae mawndiroedd o arwyddocâd hanesyddol, archaeolegol a diwylliannol.

Mae mawndiroedd yn cadw tystiolaeth hanesyddol ac archaeolegol. Gan ffurfio dros filoedd o flynyddoedd, mae mawndiroedd yn archifau pwysig o amgylchedd y gorffennol a gweithgareddau dynol. Mae'r amodau dyfrlawn mewn mawndiroedd yn cadw gwrthrychau naturiol a rhai o waith dyn.

## Mae mawndiroedd yn cefnogi hamdden ac yn darparu ymdeimlad o le.

Mae'r mannau agored eang y mae mawndiroedd yn eu cynnig yn lleoedd perffaith ar gyfer dianc rhag prysurdeb trefi a dinasoedd. Gall eu tirweddau agored roi ymdeimlad o ysbrydoliaeth a chysylltiad â'r amgylchedd naturiol i bobl.

## Gall mawndiroedd helpu i wella ansawdd dŵr.

Yn aml, mae mawndiroedd i'w cael yn yr ucheldiroedd. Maen nhw'n gorwedd ar frig dalgylchoedd afonydd lle ceir glawiad cyson a thrwm. Os yw'r mawndir mewn cyflwr da, mae'r dŵr sy'n rhedeg i mewn i gronfeydd dŵr yfed fel arfer yn lanach, diolch i fwsoglau arbennig sy'n hidlo'r dŵr.

## Mae mawndiroedd yn chwarae rhan bwysig mewn gwella iechyd a lles pobl.

Mae pobl yn ymweld â mawndiroedd i ymlacio, archwilio a dianc rhag prysurdeb bywyd, gan fwynhau llonyddwch yr eangderau agored.

## Mae mawndiroedd yn darparu bwyd ar gyfer pobl.

Mae mwyar duon, eirin gwyllt, eirin ysgaw, llus a llugaeron i gyd i'w cael yn tyfu'n wyllt ar fawndiroedd.

## Gall mawndiroedd yr ucheldir sydd mewn cyflwr da helpu i atal y perygl o lifogydd.

Mae mawndiroedd sydd mewn cyflwr da yn amsugno dŵr. Gan weithredu fel byffer naturiol, mae mawndiroedd yr ucheldir yn dal dŵr yn ôl ac yn arafu llif y dŵr drwy'r dalgylch, gan helpu i leihau perygl llifogydd i lawr yr afon.

## Mae mawndiroedd yn darparu cynefin a bwyd ar gyfer amrywiaeth o fywyd gwyllt.

Mae mawndiroedd yn gynefinoedd hanfodol i rai planhigion, adar a thrychfilod, a dim ond yn y cynefinoedd arbennig hyn y gall llawer ohonynt fyw neu fagu. O ysgyfarnogod i fwsoglau migwyn sbyngaidd, mae cynefinoedd mawndir yn cynnal llawer o rywogaethau o fywyd gwyllt.

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i: **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**

**www.cyfoethnaturiol.cymru**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government